# Cyngor Sir
# CEREDIGION
# County Council



# GWNEUD CAIS
# I GAEL
# TALIAD TAI YN ÔL DISGRESIWN

Cyngor i'ch helpu i wneud cais i gael Taliad Tai yn ôl Disgresiwn os oes gwahaniaeth rhwng eich rhent a'ch budd-dal

© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD ALL RIGHTS RESERVED

## Cyflwyniad

Mae'r nodiadau hyn yn rhoi rhywfaint o gyfarwyddyd i'ch helpu i lenwi'r ffurflen gais i gael Taliad Tai yn ôl Disgresiwn (TTD).

Gallwch wneud cais i gael TTD os yw swm y Budd-dal Tai rydych chi'n ei gael yn llai na'r rhent rydych chi'n ei dalu. Gallwch hefyd wneud cais os ydych chi'n hawlio'r Credyd Cynhwysol a bod swm yr elfen dai yn llai na'ch rhent.

Taliad brys yw'r TTD, nid budd-dal. Mae'r Senedd wedi pennu cyllideb benodol ar ei gyfer. Rhaid i'r Cyngor wneud yn siŵr bod yr arian yn cael ei rannu rhwng yr ymgeiswyr a'i fod yn cyrraedd y bobl sydd ei angen fwyaf. Felly, hyd yn oed os ydych chi'n ei chael hi'n anodd, mae'n bosib y bydd mwy o angen cymorth ar bobl eraill sy'n gwneud cais i gael taliad.

Ni all y cyngor warantu cymorth hirdymor drwy gyfrwng TTD gan mai'r llywodraeth ganolog sy'n pennu'r gyllideb o flwyddyn i flwyddyn. Mae nifer y ceisiadau sy'n dod i law'r cyngor yn amrywio yn ôl ffactorau economaidd a ffactorau cymdeithasol.

Felly, nid dim ond mater o wneud cais i gael cymorth ariannol yw hwn. Rhaid i chi hefyd roi darlun llawn i'r cyngor o'ch amgylchiadau er mwyn iddo weld a fyddai'n bosib mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r budd-dal drwy ddull arall.

Yn ystod y broses ymgeisio, byddwn yn pwyso a mesur tri maes a bydd yn bwysig eich bod yn rhoi cymaint o wybodaeth â phosib i ni. Bydd disgwyl bod gennych dystiolaeth i ategu rhywfaint o'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i'r cyngor. Dyma'r tri maes y byddwn yn eu hystyried:

- Sefyllfa'r aelwyd.
- Sefyllfa ariannol yr aelwyd.
- Y pethau y gallech chi a'ch teulu eu gwneud i newid y sefyllfa.

Os nad ydych chi'n sicr am unrhyw ran o'r ffurflen, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gefn y nodiadau hwn i gael cymorth i lenwi'r ffurflen gais.

© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD ALL RIGHTS RESERVED

## 1. Manylion Eich Aelwyd

Mae rhan gyntaf y ffurflen yn cynnwys nifer o gwestiynau amdanoch chi a'ch aelwyd. Mae'n cynnwys cwestiynau safonol fel eich enw a'ch dyddiad geni ac ati. Mae hefyd yn gofyn pam fod angen cymorth arnoch chi ac yn gofyn am fanylion eich aelwyd. Dylech ateb cymaint o'r cwestiynau â phosib.

Mae yna gwestiynau am y bobl sy'n byw ar eich aelwyd. Nid oes rhaid i'r aelwyd fod yn deulu traddodiadol. Gall fod yn berson sengl neu'n deulu estynedig. Bydd yn eich cynnwys chi, eich partner ac unrhyw blant sy'n byw gyda chi. Mae pob cwestiwn yn bwysig. Dylech ateb cymaint o'r cwestiynau â phosib oherwydd bydd yn eich helpu i roi darlun llawn o'ch sefyllfa chi. Os oes angen mwy o le arnoch i roi manylion aelodau'ch aelwyd, gallwch ddefnyddio darn arall o bapur a'i glymu at y ffurflen.

Os oes perthynas neu ffrind sy'n oedolyn yn byw yn eich cartref, bydd angen i chi lenwi'r adran "Ynghylch pobl eraill sy'n rhan o'ch aelwyd". Mae angen i'r cyngor gael gwybod am bawb sy'n byw ar eich aelwyd. Os ydych yn gosod ystafell neu os oes rhywun yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at gynnal yr aelwyd, y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i'r Cyngor am swm y rhent rydych chi'n ei gael.

## 2. Manylion Ariannol

Mae angen i ni ddeall eich sefyllfa ariannol. Yn ogystal â rhoi darlun i'r cyngor o faint y cymorth y gall fod ei angen arnoch chi, mae'r wybodaeth ariannol hefyd yn eich helpu chi a'r cyngor i ddeall sut rydych chi'n defnyddio'ch incwm a pha ymrwymiadau sydd gennych chi.

Os na fydd y Cyngor yn cael digon o wybodaeth am eich incwm a'ch treuliau, rydych chi'n llai tebygol o gael TTD.

Trosodd, fe welwch rai enghreifftiau o incwm a threuliau. Nid yw'r rhestr hon yn gyflawn, ond mae'n rhoi syniad i chi o'r pethau y dylech chi eu cynnwys.

**Mae angen i chi gynnwys eich holl incwm a'ch treuliau chi a'ch partner.**

© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD ALL RIGHTS RESERVED

## 2.1 Incwm

Ar y ffurflen gais, fe welwch restr o ffynonellau incwm cyffredin. Serch hynny, mae'n bosib eich bod yn ennill incwm o ffynhonnell arall. Os felly, nodwch yr incwm o dan y pennawd 'Arall'.

| Incwm Gwaith | Incwm Budd-Daliadau | Incwm Arall |
|---|---|---|
| • Cyflog<br>• Incwm hunangyflogaeth (net)<br>• Incwm a enillir (net)<br>• Incwm a enillir gan eich partner (net)<br>• Tâl Salwch<br>• Tâl Mamolaeth<br>• Incwm arall a enillir | • Lwfans Ceisio Gwaith (Cyfrannol a Seiliedig ar Incwm)<br>• Cymhorthdal Incwm<br>• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Cyfrannol a Seiliedig ar Incwm)<br>• Credyd Pensiwn (Credyd Gwarant a Chredyd Cynilion)<br>• Budd-dal Plant<br>• Budd-dal Analluogrwydd<br>• Budd-dal Gweddw<br>• Lwfans Gweini<br>• Lwfans Profedigaeth<br>• Lwfans Gofalwr<br>• Lwfans Byw i'r Anabl (yr elfennau Gofal a Symudedd)<br>• Taliad Annibyniaeth Bersonol (yr elfennau bywyd bob dydd a symudedd)<br>• Budd-daliadau eraill | • Credydau Treth<br>• Credyd Treth Gwaith<br>• Credyd Treth Plant<br>• Pensiynau<br>• Pensiwn galwedigaethol<br>• Pensiwn galwedigaethol eich partner<br>• Pensiwn Gwladol<br>• Pensiwn Gwladol eich partner<br>• Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw<br>• Tâl Cynhaliaeth<br>• Incwm o unrhyw ffynhonnell arall<br>• Rhent gan lojer / tenant<br>• Cyfraniad gan unigolyn nad yw'n ddibynnol<br>• Incwm myfyriwr |

## 2.2 Cyfrifon Banc a Cynilion

Bydd angen i chi ddarparu manylion eich gyfrifon banc. Efallai bod modd i chi gael gafael ar arian o gronfeydd eraill, er enghraifft:

- Cynilion / buddsoddiadau hygyrch
- Arian gan berthnasau neu ffrindiau
- Arian arall y gallwch chi gael gafael arno

© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD ALL RIGHTS RESERVED

## 2.3 Treuliau

Dim ond awgrymiadau a geir yn y rhestr isod hefyd. Ceisiwch fod mor fanwl gywir â phosib ynghylch eich gwariant. O wneud hynny, bydd yn eich helpu chi a'r Cyngor i weld sut rydych chi'n gwario'ch incwm.

| Costau Tai | Gwasanaethau Tai | Nwyddau a Gwasanaethau ar gyfer y Cartref |
|---|---|---|
| • Rhent (llai'r Budd-dal Tai)<br>• Y Dreth Gyngor (llai unrhyw gymorth drwy Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor)<br>• Morgais<br>• Rhent tir<br>• Taliadau gwasanaeth<br>• Gwaddol | • Taliadau dwr<br>• Tanwydd y cartref<br>• Nwy<br>• Trydan<br>• Tanwydd arall<br>• Yswiriant yr aelwyd | • Teledu digidol / y rhyngrwyd<br>• Tanysgrifiadau e.e. Netflix, Ancestry, Amazon Prime, gwasanaethau cwmwl ac ati<br>• Trwydded deledu<br>• Ffôn<br>• Ffôn symudol<br>• Presgripsiynau<br>• Nwyddau ymolchi<br>• Papurau newydd / cylchgronau |

| Costau Eraill yr Aelwyd | Teithio | Dyled |
|---|---|---|
| • Costau bwyd<br>• Prydau ysgol<br>• Dillad<br>• Costau gofal plant<br>• Taliadau pensiwn preifat<br>• Gwyliau<br>• Tâl Cynhaliaeth/CSA<br>• Babi (clytiau, bwyd babi ac ati)<br>• Gwariant ar anabledd | • Petrol<br>• Treth ac yswiriant y car<br>• Tocynnau trên<br>• Tocynnau bws<br>• Ffioedd tacsi<br>• Atgyweirio'r car | • Catalogau<br>• Cardiau credyd<br>• Hurbwrcas<br>• Dirwyon sy'n flaenoriaeth<br>• Dirwyon Llysoedd Ynadon<br>• Dyfarniad Llys Sirol<br>• Dyledion eraill<br>• Benthyciad diwrnod cyflog<br>• Benthyciadau eraill |

Nid oes angen i chi roi gwybod i'r Cyngor am wariant sydd ddim yn hanfodol, ac ni fydd y Cyngor yn ystyried gwariant o'r fath. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys pethau fel sigaréts, alcohol, bwyd tecawê, bwyta allan, sinema, coffi, aelodaeth o gampfa a chlybiau chwaraeon, anrhegion. Serch hynny, efallai y byddwch chi am gynnwys yr eitemau hyn pan fyddwch chi'n rhestru'ch gwariant i'ch helpu i ddeall eich cyllideb. Efallai nad yw'r eitemau bach hyn yn ymddangos fel pe baent yn draul ar eich cyllideb, ond gallech fod yn gwario cryn dipyn arnynt dros flwyddyn. Er enghraifft, bydd pobl yn aml yn darganfod eu bod yn gwario tua £700 y flwyddyn drwy brynu coffi o gaffi'n rheolaidd.

Ar gyfer pob eitem o wariant, rhowch y wybodaeth a ganlyn ar y ffurflen:

© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD ALL RIGHTS RESERVED

| | |
|---|---|
| **Cyfnod** | Mae angen i ni wybod pa mor aml y mae'n rhaid i chi dalu am yr eitem hon:<br>**M** = bob mis, **W** = bob wythnos, **P** = bob pythefnos<br>**Ch** = bob chwarter, **6** = bob chwe mis, **B** = bob blwyddyn, **A** = yn afreolaidd |
| **Swm** | Y swm rydych chi'n ei dalu. |
| **Math o wariant** | Rhowch ddisgrifiad o'r gwariant e.e. **trydan, ffôn, gofal plant, benthyciad, petrol, tanysgrifiad** ac ati |
| **Disgrifiad** | Nodwch i bwy rydych chi'n talu'r arian. Er enghraifft **British Gas, O2, Gofal Plant Bunnykins, Wonga, Netflix,** ac ati. |

## 3. Beth allwch chi ei wneud i'ch helpu'ch hunan?

Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd y TTD yn ateb hirdymor i'r gwahaniaeth rhwng eich rhent a'ch budd-dal tai gan mai dim ond am gyfnod byr y mae'r rhan fwyaf o'r taliadau'n cael eu gwneud. Diben yr adran hon yw

1. eich helpu *chi* i ystyried sut y byddwch chi'n mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng y rhent a'r budd-dal tai ac i gynllunio ar ei gyfer a
2. helpu'r *Cyngor* i ddeall eich sefyllfa chi ac i benderfynu a ydych chi'n gymwys i gael cymorth o gyllideb gyfyngedig y TTD, o ystyried y galw presennol am gymorth.

Mae'r rhan fwyaf o'r aelwydydd sy'n gwneud cais i gael TTD yn cael hyd i'w hatebion eu hunain i'r broblem hirdymor, ond efallai bod angen ychydig o gymorth arnoch chi tra rydych chi'n rhoi'ch cynllun ar waith.

Mae'r ffurflen yn awgrymu ffyrdd o ddatrys y problemau eich hunan. Ni fydd pob un o'r enghreifftiau'n briodol i chi. Dim ond awgrymiadau ydyn nhw. i gael cymorth i gael hyd i ateb hirdymor, defnyddiwch y manylion cyswllt ar gefn y llyfryn hwn.

| | |
|---|---|
| **Cam gweithredu** | Pa gamau y gallech chi eu cymryd i dalu'r gwahaniaeth rhwng y budd-dal tai a'ch rhent? Dyma rai awgrymiadau:<br><br>• Dechrau gweithio neu weithio mwy o oriau<br>• Gwario llai ar bethau sydd ddim yn hanfodol<br>• Symud i dy llai gyda'ch landlord presennol<br>• Symud i dy llai gyda landlord arall<br>• Gosod ystafell<br><br>Gall fod modd i chi wneud pethau eraill sydd ddim ar y rhestr hon ond sy'n rhan o'ch cynllun chi. Os nad oes digon o le ar y ffurflen, gallwch ddefnyddio darn arall o bapur. |
| **Ydy hi'n debygol y bydd modd i chi gyflawni hyn?** | Rhowch sgôr o 1 i 5. Mae 1 yn dynodi y byddech yn hoffi gwneud hyn ond nad yw'n bosib oherwydd eich sefyllfa bresennol. Mae 5 yn dynodi y byddwch yn bendant yn cymryd y cam hwn. |

© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD ALL RIGHTS RESERVED

| | |
|---|---|
| **Y rhesymau pam y gall hyn fod yn anodd** | Datganiad byr sy'n egluro pam y gall fod yn anodd i chi gyflawni'r cam gweithredu hwn. Er enghraifft, efallai ei bod yn anodd i chi gyflawni'r dasg am resymau meddygol neu oherwydd bod llawer o ddiweithdra yn eich ardal chi. Efallai eich bod wedi ymrwymo i gontract sy'n eich rhwystro rhag cyflawni'r dasg. |
| **Tystiolaeth** | Unrhyw dystiolaeth sy'n dangos eich bod yn cyflawni'r cam gweithredu neu fod rhwystrau rhag cyflawni'r cam gweithredu. |
| **Dyddiad targed i gyflawni'r cam gweithredu** | Nodwch erbyn pryd rydych chi'n gobeithio cyflawni'r cam gweithredu. |

I gael cymorth i lenwi'r ffurflen hon, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

- **Cyngor Sir Ceredigion – 01970 633252**
- **Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth: 9.00yyb – 5.00yyp dydd Llun i dydd Iau; 9.00yyb – 4.30yyp dydd Gwener**
- **Neuadd y Sir, Stryd y Farchnad, Aberaeron: 9.00yyb – 1.00yyp a 1.45yyp - 6.00yyp dydd Llun, 9.00yyb – 1.00yyp a 1.45yyp - 4.30yyp dydd Mawrth i ddydd Iau, 9.00yyb – 1.00yyp a 1.45yyp - 4.00yyp dydd Gwener**
- **Swyddfeydd y Cyngor, Stryd Morgan, Aberteifi: 9.00yyb – 1.00yyp a 1.45yyp - 4.30yyp dydd Llun i dydd Iau; 9.00yyb – 1.00yyp a 1.45yyp – 4.00yyp dydd Gwener**
- **Swyddfeydd y Cyngor, Stryd y Farchnad, Llambed: 9.00yyb - 1.00yyp a 2.00yyp - 5.00yyp dydd Llun a dydd Iau; 9.00yyb – 1.00yyp a 2.00yyp – 6.00yyp dydd Mawrth; 9.00yyb – 1.00yyp a 2.00yyp – 4.30yyp dydd Mercher a dydd Gwener**

Ar ôl llenwi'r fersiwn ar-lein o'r ffurflen, gallwch ei hanfon drwy'r e-bost at revenues@ceredigion.gov.uk

Os ydych wedi argraffu copi o'r ffurflen, gallwch ei dychwelyd i unrhyw un o'r swyddfeydd uchod, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol.

© 2014 WELFARE REFORM CLUB & GHG ASSOCIATES LTD ALL RIGHTS RESERVED